

# Gwna dy orau

“... gweithredwch, mewn ofn a dychryn, yr iachawdwriaeth sy'n eiddo ichwi; oblegid Duw yw'r un sydd yn gweithio ynoch.” (adn. 12–13)

## Beth am ddarlenn Philipiaid 2:12–30 ac yna myfyrio

Ddoe, bu inni orffen trwy weddio ar yr Arglwydd i beidio â chaniatáu inni fod yn bobl sydd wedi adnabod bywyd ac yna baglu. Mae'n wir am lawer o Gristnogion fod eiliad o frwdfrydedd wrth iddyn nhw ddarganfod gogoniant gwirionedd Cristnogol yn cael ei ddilyn gan fethiant i weithio allan eu hiachawdwriaeth ac i symud ymlaen yn barhaus.

Cyn inni edrych yn fanwl ar y saith rhinwedd y mae angen inni eu hychwanegu at ein ffydd sylfaenol yng Nghrist, mae angen inni oedi am ddiwrnod neu ddau i ystyried y geiriau “Gwnewch eich gorau glas i ychwanegu at eich ffydd...” ac yn y blaen (2 Pedr 1:5). Yn anffodus, mae llawer o Gristnogion yn ei chael yn anodd i dderbyn y cyngor “Gwnewch eich gorau glas” neu “Gwnewch bob ymdrech”, oherwydd i rai mae'n swnio fel iachawdwriaeth trwy weithredoedd. Ac eto, fel y gwelwn o'r darlenniad heddiw, mae Paul yn dweud rhywbeth tebyg iawn. Er bod y bywyd Cristnogol yn fywyd sydd yn cael ei sicrhau gan ffydd, nid gan weithredoedd, mae hefyd yn wir i ddweud bod y ffydd nad yw i'w weld mewn gweithredoedd ddim yn ffydd o gwbl.

Yn yr Eglwys heddiw, mae yna bwyslais mewn rhai cylchoedd ar ffydd a rhy ychydig o bwyslais ar yr angen i gymhwyso egwyddorion yr Ysgrythur i'n bywyd o ddydd i ddydd hefo Iesu. Byddaf yn beio diffyg mewn dysgeidiaeth gyson mewn llawer o eglwysi. Yn ôl John Stott, mae'r gwendidau ym mywydau Cristnogion yn adlewyrchu y gwendidau mewn pregethu Cristnogol. Un canlyniad i'r diffyg dysgeidiaeth gyson yma yw bod llawer o bobl ifainc sydd yn Gristnogion heb feddwl am eiliad bod dim byd o'i le mewn cysgu gyda'u cariadon cyn priodi. Yn anffodus, ni welant unrhyw gysylltiad rhwng eu ffydd a'u hymddygiad. Os na fydd y bwlch sydd yn agor rhwng ffydd a gweithredoedd yn cael ei gau, mi fydd yn sicr o ddwyn Cristnogaeth i amarch yng ngolwg y byd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

1 Cor. 15:58; Eff. 2:8–10; Heb. 4:1–11; Iago 2:14–26

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw perthynas ffydd a gweithredoedd?
2. Beth yw perthynas gras ac ymdrech?

## Gweddi

O Dduw daionus a grasol, rwy'n gweld yn gliriach o ddydd i ddydd fod ffydd heb weithredoedd yn farw. Cynorthwya fi i fod yn un sydd yn arddangos fy ffydd mewn gweithredoedd da ac ymddygiad duwiol. Rwy'n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.